Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llinos Bowen**

**Newport**



## Dyddiad yr arolygiad wedi'i gwblhau

07/10/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gwarchodwr Plant |
| Uchafswm y lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Mawrth 2017 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Na |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Good** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Good** |
| **Yr Amgylchedd** | **Good** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Adequate** |

Ewch i ddiwedd yr adroddiad hwn i gael rhagor o wybodaeth am raddau.

**Crynodeb**

Mae plant yn hapus, yn gartrefol, ac yn cyfathrebu yn hyderus gyda'u cyfoedion a staff. Maent yn datblygu perthnasau cryf ac yn annibynnol wrth iddynt gael dewisiadau a chyfleoedd i mynegi barn a chyfrannu tuag at syniadau chwarae a chynlluniau'r dydd.

Mae ymarferwyr yn brofiadol ac yn deall a dilyn polisïau a gweithdrefnau i hybu lles, diogelwch a ffordd o fyw iach. Maent yn annog plant i fynegi eu hunain ac yn rhyngweithio â hwy mewn modd positif. Maent yn cynllunio gweithgareddau yn ofalus er mwyn cwrdd â gofynion a diddordebau'r plant, ynghyd a'u hunaniaeth.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn gosod canllawiau clir er mwyn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau. Mae'n cynnig ystod eang o adnoddau da i gwrdd â gofynion a chamau datblygiad unigol plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau eu bod yn cwrdd â bron bob un o'r rheoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae ganddynt bartneriaethau cryf gyda rhieni a gyda'r ysgol a lleoliadau meithrin lleol, lle maent yn cynnig gwasanaeth cludo a chasglu.

| Llesiant | Good |
|---|---|

Mae plant yn cyfathrebu'n hyderus am fod eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio nhw ac mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi, a'r staff yn gweithredu arnynt. Er enghraifft fe welwyd plant yn cael dewis ffrwyth yn ystod amser snac, ac yn cael dewis rhagor a gaws a bara menyn amser cinio. Gwelwyd hefyd enghraifft cryf o blant yn mynegi eu dymuniadau  wrth baratoi am y daith i gasglu plant o'r ysgol feithrin, gyda rhai yn dewis aros yn y lleoliad, a rhai yn dewis mynd ar y daith.

Mae plant yn amlwg yn teimlo'n ddiogel, yn gartrefol ac yn hapus. Maent yn ymdopi'n dda iawn â bod ar wahân i'w rhieni ac mae'r bolisi setlo mewn yn cael ei ystyried yn ofalus, gyda phob plentyn yn cael ei gefnogi. Ar ddiwrnod yr ymweliad, roedd plant yn symud o amgylch y safle yn hyderus ac yn brysur yn ei chwarae, neu yn gyfforddus i ymlacio o amgylch y lleoliad.

Mae plant yn egnïol ac yn mynegi mwynhad. Er enghraifft, pan oeddent tu allan yn archwilio yn yr ardd, fe glywyd sgwrsio cyffrous am y perlysiau a blannwyd ganddynt. Mae'n glir bod y plant yn gyfarwydd a'r arferion dyddiol. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn a wedi meithrin cydberthnasau da gyda'u cyfoedion. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson ac mae plant yn cydweithio'n dda ac yn dangos diddordeb wrth iddynt cymryd rhan. Maent yn dangos parch tuag at ei gilydd a gwelwyd plant yn helpu ei gilydd, yn trafod, dewis a gwneud penderfyniadau ar y cyd.

Mae plant yn frwdfrydig yn eu chwarae ac yn mwynhau'r amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael iddynt, yn ogystal a'r llefydd chwarae tu fewn a thu allan. Gwelwyd grŵp o blant yn ymgasglu tu ôl i soffa i chwarae rôl, lle roedd lefel y chwarae a dysgu yn gyfoethog, a'r parablu yn dystiolaeth o fwynhad y plant. Enghraifft arall oedd pan oeddent wedi dewis chwarae â toes i arbrofi a chreu cacennau penblwydd i'r Gryffalo, drwy trafod ymysg ei gilydd.

Mae plant yn rhydd i archwilio eu hamgylchedd dan do ac yn yr awyr agored, lle mae ystod o ardaloedd wahanol tu allan i arbrofi yn y pridd, garddio, dringo a rhedeg. Mae plant yn cael cyfleoedd i ddewis a dechrau eu chwarae am fod cydbwysedd da rhwng y gweithgareddau y paratowyd ar eu cyfer a'r rhai sydd ar gael yn barhaol. Maent yn cael llawer o gyfleoedd i ddilyn eu diddordebau ac yn awyddus i drafod gydag eraill. Mae plant yn symud yn annibynnol i ddefnyddio'r tŷ bach, golchi dwylo, eistedd wrth y bwrdd, gwisgo a dad-wisgo eu hunain ac yn cael cyfleoedd ddiddiwedd i ddatblygu eu sgiliau o ddatrys problemau. Gwelwyd bod ystod o adnoddau a chyfleoedd i wneud gweithgareddau diddorol yn ôl eu hoedran a datblygiad, er enghraifft, bocs llawn magnetau sydd yn boblogaidd gyda phlant yn hŷn wrth iddynt greu ac adeiladu prosiectau eu hunain, yn ystod gwyliau ysgol.

| Gofal a Datblygiad | Good |
|---|---|

Mae’r rhan fwyaf o’r ymarferwyr yn deall y polisïau a’r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith. Mae’r rhan fwyaf o’r ymarferwyr yn nodi risgiau ac yn mynd ati i’w rheoli yn effeithiol. Gwelwyd ystod o asesiadau risg manwl yn dilyn yr ymweliad, ac mae rhain i gyd yn berthnasol i’r gwasanaeth ac yn gywir. Mae’r rhan fwyaf o’r ymarferwyr yn gweithredu arferion clir o rhan hylendid, ond ni welwyd cysondeb o wisgo menig a golchi dwylo yn ystod amseroedd bwyta. Dywedodd y gwarchodwr plant bod trefniadau hefyd ar waith i sicrhau bod pob plentyn a lliain sychu dwylo personol yn y tŷ bach, er mwyn osgoi lledaenu haint, a chynnal cyfleoedd pellach o annibyniaeth. Ni welwyd gweithdrefnau newid cewyn ar y dydd, ond fe welwyd bod y cyfleusterau mewn lle. Mae dealltwriaeth o weithdrefnau diogelu yn dda iawn ac mae gan y gwarchodwr plant dystysgrif diogelu cyfredol yn ogystal â phrofiadau o fynychu gweithdai diogelu gyda AGC.

Mae plant yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn dda am eu bod yn cael ymateb a rhyngweithio cyson, ac mae iaith eu cartref yn cael ei hyrwyddo. Mae’r ymateb rhwng ymarferwyr a’r plant yn gyson. Maent yn gwrando ar barnau y plant ac mae eu dymuniadau a’u syniadau yn cael eu parchu. Mae’r rhyngweithio yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd ac fe welwyd y gwarchodwr plant gyda’r plant yn trafod ‘collage’ o luniau personol ar gyfer bob plentyn sydd yn cynnwys aelodau teulu a’i hoff bethau, a’r plant yn amlwg yn gyfforddus, hapus ac hyderus i gyfrannu ac enwi. Gwelwyd bod y gwarchodwr plant yn wybodus am faterion anghenion dysgu ychwanegol ac mae ganddynt rhwydwaith o gefnogaeth sydd yn rhan o arferion dyddiol y gwasanaeth. Ar ddiwrnod yr ymweliad, roedd un ymarferydd wedi mynychu cwrs penodol ADY i gefnogi plentyn o fewn y gwasanaeth yn bellach. Mae’r gwarchodwr plant yn sicrhau bod gan y gwasanaeth a’r ymarferwyr ddealltwriaeth gyfoethog o faterion amrywiaeth ac maent yn hyrwyddo hawliau’r plentyn o dan CCUHP. Enghraifft effeithiol o hyn oedd arddangosfa yn yr ardal bwyta, lle roedd siâp plentyn ar y wal a’r plant wedi ychwanegu hawliau a’r y siâp. Yn ogystal a hyn, roedd gweithgaredd ar waith yn creu tai personol bob plentyn er mwyn iddynt ddysgu a grymuso’r plant am eu hunaniaeth.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd eang i ddatblygu drwy eu chwarae a dysgu. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn dilyn diddordebau unigol a chynllunio o’r diddordebau hynny. Maent yn cefnogi anghenion unigol y plant ac yn darparu ar eu cyfer. Fe esboniodd y gwarchodwr plant am gynlluniau a’r waith i addasu’r ystafelloedd er mwyn hwyluso profiadau plentyn â diffyg clyw wrth fuddsoddi mewn matiau a llenni newydd i amsugno’r sŵn. Maent wedi mynychu nifer o weithdai gyda’r nos ar ‘gwneud a datblygu marciau’. O ganlyniad, maent yn cyflwyno newidiadau pellach i’w arfer drwy archebu clai caled yn hytrach na defnyddio toes meddal, er mwyn datblygu ac ymestyn sgiliau echddygol manwl y plant.

| Yr Amgylchedd | Good |
| --- | --- |

Mae’r gwarchodwr plant yn cynnig amgylchedd sydd wedi addasu yn ofalus ac yn cynnig lefel da iawn o ddiogelwch, lle mae’r lleoliad o dan glo ar bob amser. Fe welwyd plant yn annibynnol wrth iddynt gael mynediad a rhyddid i bob ardal o’r ‘stafell chwarae, yr ardal bwyta a’r ardal tawel yn ogystal a’r ardaloedd cyffrous ac eang tu allan yn yr ardd. Roedd ymarferwyr yn bresennol yr holl amser yr oedd y plant tu allan. Fe welwyd trefniadau cyrraedd plant, a’r broses o gosod a storio bagiau ac esgidiau yn y brif dderbynfa. Mae’r gwarchodwr plant yn sicrhau bod asesiadau risg cyffredinol yn ogystal ac asesiadau perygl tân mewn lle, ac yn cael eu hymarfer a’u hadolygu yn rheolaidd. Gwelwyd Dril Tân y gwasanaeth yn dilyn yr ymweliad a oedd yn gywir. Mae’r gwarchodwr plant yn sicrhau bod cymarebau ymarferwyr i blant yn gywir a’u bod yn goruchwylio plant yn dda iawn. Fe welwyd y cofrestr plant a ymarferwyr a bod yr arfer o sicrhau hyn yn barhaol. Ar ddiwrnod yr ymweliad, gwelwyd llyfr ymwelwyr, tystysgrif nwy a thystysgrifau llwyddiant Lleoliadau Cyn-Ysgol Iach.

Mae’r ystod eang o adnoddau a darpariaeth priodol yn cael eu storio yn drefnus ac yn ddiogel mewn bocsys priodol ar silffoedd cadarn, gyda’r adnoddau i’r plant bach ar y silffoedd waelod a’r adnoddau ar gyfer plant hŷn yn uwch. Mae’r amgylchedd hefyd yn cynnig ardaloedd sydd yn cynnig lle i storio adnoddau crefft, ardal i baratoi byrbrydau, ardal yn y cyntedd, lle mae modd cynnal trafodaethau cyfrinachol gyda rhieni ac ymwelwyr, ac ardal yn yr ystafell tawel, lle mae cotiau ac esgidiau glaw y plant yn cael eu storio. Mae rhan fwyaf o waith papur y gwasanaeth yn cael ei gadw’n gyfrinachol ar cyfrifiadur y gwarchodwr plant.

Mae’r gwarchodwr plant yn darparu adnoddau da iawn er mwyn ennyn chwilfrydedd y plant. Mae ystod eang o adnoddau yn yr ardaloedd chwarae tu fewn sydd yn caniatáu i bob plentyn gweld a chyffwrdd yn rhwydd. Mae’r ardal chwarae awyr agored tu ôl i’r lleoliad yn cynnig ystod o ddarpariaeth o safon. Er enghraifft, fframiau ddringo, siglenni, tai bach ar gyfer chwarae rôl, ardal patio caled ar gyfer gyrru a defnyddio sgwteri, ardaloedd garddio a thyfu llysiau, berllan bach ar gyfer casglu afalau – bob ardal yn cynnig nifer fawr o gyfleoedd diddorol i blant i archwilio mewn modd diogel a rhydd. Ar gyfer babis yn cysgu, fe welwyd ystafell ar y safle lle roedd darpariaeth cysgu addas, er nid oedd babis ar y safle ar ddiwrnod yr ymweliad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Adequate**

Mae gan y gwarchodwr plant flynyddoedd o brofiad gofal. Mae ganddynt weledigaeth glir, ac yn rhannu hwn gyda'r plant, ymarferwyr, rhieni a defnyddwyr y gwasanaeth drwy ddarparu polisïau clir a datganiad o ddiben sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth. Maent yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o reoliadau perthnasol ac yn cwrdd a rhan fwyaf o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r gwarchodwr plant yn drefnus o rhan adolygu polisïau, tystysgrifau, gwybodaeth a chofnodion. Mae trefn weddol glir yn cael ei gweithredu gyda chofrestr y plant a chofnod arwyddo yr ymarferwyr, ond mae'r gwarchodwr plant yn datblygu hwn ymhellach i nodi amseroedd cyrraedd a gadael yr ymarferwyr bob dydd.

Er bod ffeiliau staff yn eu lle, mae'r gwarchodwr plant wedi datblygu rhain yn bellach oddi ar yr ymweliad i gynnwys gwybodaeth cywir ar gyfer bob aelod staff gofal. Yn yr un modd, mae'r broses o gofnodi oruchwylio ac arfarniadau blynyddol y staff gofal wedi eu datblygu yn bellach yn dilyn yr ymweliad i ddangos strwythur mwy ffurfiol. O rhan y Gymraeg, mae naws a diwylliant Cymraeg y gwasanaeth yn amlwg ac mae'r gwarchodwr plant yn cwrdd a'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg tra yn parchu bob plentyn. Fe welwyd bod llenyddiaeth i gael ar gyfer rhieni yn y dderbynfa er mwyn cyfoethogi'r bartneriaeth rhwng eich gwasanaeth  a'r teuluoedd.

Mae'r gwarchodwr plant yn dangos nodau clir ar gyfer datblygiad pellach ac mae'r weledigaeth ar gyfer datblygu yn barhaol, yn dda a phwrpasol. Sylwyd bod y pwyntiau i wella, a nodwyd yn yr adroddiad o ansawdd gofal diwethaf wedi eu cwrdd yn llawn. Ar ddiwrnod yr ymweliad, esboniodd y gwarchodwr plant bod yn y broses o ddosbarthu holiaduron i bawb ar gyfer adroddiad Ionawr 2023 wedi ei ddilyn.

Mae'r tîm yn cydweithio yn effeithiol ac yn adnabod cryfderau eu hunain sydd yn arwain at ddosbarthu cyfrifoldebau er mwyn codi safonau'r gwasanaeth. Mae tystiolaeth da bod cysylltiadau cryf ag amrywiaeth eang o ddefnyddwyr y gwasanaeth, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae partneriaeth da gyda'r ysgol feithrin gyfagos a'r ysgol lleol wrth ddarparu gwasanaeth cludo, ac fe welwyd hwn yn gweithio yn gywir ac yn ddiogel ar ddiwrnod yr ymweliad er gwaetha'r tywydd gwlyb. Ni chafwyd y cyfle i siarad â rhieni a'r ddiwrnod yr ymweliad, ond mae holiaduron yn dangos eu bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth. Ar ddiwrnod yr ymweliad, gwelwyd effeithiolrwydd y ffordd mae gwybodaeth, lluniau gweithgareddau ac achlysuron yn cael eu rhannu yn ddiogel ar safle breifat. Enghraifft arall o bartneriaeth cryf oedd gweld bod mainc tu allan i ddrws ffrynt y gwasanaeth wedi cael ei wneud gan aelod teulu un o'r plant, er mwyn i bobl gael aros tu allan yn ystod y cyfnod clo.

**Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

R1 – Cofnodi amseroedd cyrraedd a gadael pob oedolyn a’r y cofrestr dyddiol;

R2 – Sicrhau eich bod yn dilyn gofynion canllawiau atal a rheoli heintiau ar gyfer lleoliadau gofal plant yng Nghymru (0-5 oed);

R3 – Ffurfioli’r broses o oruchwylio ac arfarnu staff gofal yn bellach.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad. |
| **Wedi ei adolygu** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ond ni chafodd ei chyflawni. |
| **Wedi ei gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn yr adolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

Pan rydym yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn eu hamlygu fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu er mwyn unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf. Os bydd y darparwyr wedi methu â chyflawni'r gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Meysydd I’w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Mae'r rhain yn wasanaethau sy'n ymrwymedig i wella'n barhaus ac mae ganddynt lawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hyrwyddo eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella.<br>Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Mae'r rhain yn wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na.<br>chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/12/2022